Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PYSGODFA GOCOS ABER Y TAIR AFON 2024

HYSBYSIAD CYHOEDDUS

a gyhoeddwyd yn unol ag

Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

MAE GWEINIDOGION CYMRU YN HYSBYSU, yn unol ag Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, bydd y gwelyau cocos canlynol ar agor:

Llansteffan fel y'i diffinnir isod ("gwelyau cocos Llansteffan") caniatáu casglu cocos ar Llanw Sengl ar ddydd Mercher a dydd Iau yn unig (o 00:01 bob bore Mercher tan 23:59 bob nos Iau), i ddechrau am 00:01 ar 7 o Awst 2024 tan 23:59 ar 31 Rhagfyr 2024.

Llanismel a Than-y-lan fel y'i diffinnir isod ("gwelyau cocos Llanismel a Than-y-lan") caniatáu casglu cocos ar Llanw Sengl ar ddydd Mercher a dydd Iau yn unig (o 00:01 bob bore Mercher tan 23:59 bob nos Iau), i ddechrau am 00:01 ar 7 o Awst 2024 tan 23:59 ar 31 Rhagfyr 2024.

Gwendraeth fel y'i diffinnir isod ("gwelyau cocos Gwendraeth") caniatáu casglu cocos ar Llanw Sengl ar Benwythnosau yn unig (o 00:01 bob bore Sadwrn tan 23:50 bob nos Sul), i ddechrau am 00:01 ar 3 o Awst 2024 tan 23:59 ar 31 Rhagfyr 2024.

Llan-y-bri fel y'i diffinnir isod ("gwelyau cocos Llan-y-bri") caniatáu casglu cocos ar Llanw Sengl ar Benwythnosau yn unig (o 00:01 bob bore Sadwrn tan 23:59 bob nos Sul), i ddechrau am 00:01 ar 3 o Awst 2024 tan 23:59 ar 31 Rhagfyr 2024.

Glanyfferi fel y'i diffinnir isod ("gwelyau cocos Glanyfferi") caniatáu casglu cocos ar Llanw Sengl ar ddydd Mercher a dydd Iau yn unig (o 00:01 bob bore Mercher tan 23:59 bob nos Iau), i ddechrau am 00:01 ar 7 o Awst 2024 tan 23:59 ar 31 Rhagfyr 2024.

Gydag effaith o 3ydd Awst bydd a terfyn dal dyddiol o 300kgs nes bydd rhybudd pellach.

SYLWER : Mae'r holl welyau cocos eraill yn ardal Aber y Tair Afon, fel y'i diffinnir isod ("yr Ardal") yn parhau ar gau at ddiben hela cocos, hynny o 00:01 ar 1 Mai 2024 tan 23:59 ar 30 Ebrill 2025 yn unol a Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

.

Oni bai iddo gael caniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, ni chaiff unrhyw un bysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt, mewn unrhyw bysgodfa sydd wedi ei chau yn unol a Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

.

Gwelyau cocos Llansteffan

Mae gwelyau cocos Llansteffan, sy'n cael eu hagor gan yr hysbysiad hwn, wedi'u lleoli yn aber Afon Tywi o fewn y llinellau a ganlyn:

i. Llinell a dynnir rhwng Ginst Point (Cyf. NG: SN 332079) a Wharley Point (Cyf. NG: SN 340092).
**ii.** Llinell a dynnir o sianel ganol ar draws Afon Tywi i'r dwyrain o gornel mwyaf deheuol Castell Llansteffan gyferbyn a'r lan yn Ferryside.
iii. Llinell a dynnir o sianel ganol Afon Tywi, i gyfeiriad de-ddwyrain o Ginst Point (NG Ref. SN 332079), tuag at y lan gyferbyn yn Pwynt Pen Tywyn (NG Ref. SN 357064).
iv. Llinell a dynnir ar hyd y sianel rhwng y ddau bwynt canol.

Gwelyau cocos Llanismel a Than-y-lan

Mae gwelyau cocos Llanismel a Than-y-lan sy'n cael eu hagor gan yr hysbysiad hwn, wedi'u lleoli yn aber Afonydd Tywi a Gwendraeth o fewn y llinellau a ganlyn:

i. Llinell a dynnir o Barc Gwyliau Bae Caerfyrddin (Cyf. MH: SN 367073) tua'r de-orllewin ar hyd Pastoun Scar i Bwynt Pen Tywyn (Cyf NG: SN 357064), ac yna tua'r gogledd-orllewin i ganol sianel yr Afon Tywi.
ii. Llinell a dynnir o Eglwys Plwyf Isfael Sant (Cyf. NG 362084) tua'r gorllewin i bwynt yng nghanol y sianel gyferbyn â Wharley Point (Cyf. NG: SN 340092).
iii. Llinell a dynnir ar hyd y sianel rhwng y ddau bwynt canol

Gwelyau cocos Gwendraeth

Mae gwelyau cocos Gwendraeth, sy'n cael eu hagor gan yr hysbysiad hwn, wedi'u lleoli yn aber Afon Gwendraeth o fewn y llinellau a ganlyn:

i. Llinell a dynnir o Barc Gwyliau Bae Caerfyrddin (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 367073) tua'r de-orllewin ar hyd Pastoun Scar i Bwynt Pen Tywyn (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol 357064), a
ii. Llinell a dynnir ar draws pob afon neu nant sy'n llifo i aber Afon Gwendraeth, ar hyd ochr y môr y pontydd sy'n cludo'r rheilffordd rhwng Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin a Thraeth RAF Pen-bre.

Gwelyau cocos Llan-y-bri

Mae gwelyau cocos Llan-y-bri, sy'n cael eu hagor gan yr hysbysiad hwn, wedi'u lleoli yn aber Afon Taf o fewn y llinellau a ganlyn:

i. Llinell a dynnir rhwng Castell Talacharn (Cyf. NG: SN 302108) a Black Scar (Cyf. NG: SN 311108).

ii. Llinell a dynnir rhwng Ginst Point (Cyf. NG: SN 332079) a Wharley Point (Cyf. NG: SN 340092).

Gwelyau cocos Glanyfferi

Mae gwelyau cocos Glanyfferi, sy'n cael eu hagor gan yr hysbysiad hwn, wedi'u lleoli yn aber Afon Tywi o fewn y llinellau a ganlyn:

i. Llinell a dynnir o’r sianel ganol ar draws Afon Tywi o gornel mwyaf de-ddwyreiniol Castell Llansteffan i’r lan gyferbyn yng Nglanyfferi.
ii. Llinell a dynnir o’r sianel ganol rhwng Wharley Point (Cyf. NG: SN 340092) ag Eglwys St Ishmael (Cyf. NG: SN 362084).
iii. Llinelli a dynnir ar hyd y sianel rhwng y ddau bwynt canol.

Yr Ardal

Yr ardal yn aberoedd Afonydd Taf, Tywi a Gwendraeth a elwir yn Aber y Tair Afon, sef yr holl ddyfroedd llanw yn Ardal cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a amgaeir gan linell a dynnir i gyfeiriad y dwyrain o Bwynt Ginst (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 332079) i Bwynt Pen Tywyn (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 357064). Y dyfroedd llanw yw'r terfynau hynny a ddiffiniwyd gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru:

i. Llinell a dynnir ar draws Afon Taf, rhwng Castell Lacharn a Black Scar.
ii. Llinell a dynnir ar draws Afon Tywi, i’r dwyrain cywir o gornel mwyaf de-ddwyreiniol Castell Llansteffan i'r lan gyferbyn.
iii. Llinell a dynnir ar draws pob afon neu nant sy'n llifo i aber Afon Gwendraeth, ar hyd ochr y môr y pontydd sy'n cludo'r rheilffordd rhwng Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin a Thraeth RAF Pen-bre.

Rhoddir yr hysbysiad hwn o dan awdurdod yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad yr Hysbysiad: 16 Gorffennaf 2024

## Nodiadau:

1. Deddfwriaeth arall. Yng ngwelyau cocos Llansteffan, Llan-y-bri, Llanismel/Than-y-lan, Gwendraeth a Glanyfferi rhaid i unrhyw un sy'n pysgota neu'n ceisio pysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu geisio eu cymryd neu darfu arnynt, yn unol â'r Hysbysiad hwn, gydymffurfio hefyd â phob deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r gweithgaredd hwnnw yn y lle hwn.

2. Fel arall, bydd Aber y Tair Afon yn aros ar gau. Mae'r holl welyau cocos yn ardal Aber y Tair Afon yn parhau ar gau at ddiben hela cocos (tan 23:59 ar 30 Ebrill 2025, ac eithrio yng ngwely cocos Llansteffan, Llanismel/Than-y-lan, Gwendraeth, Llan-y-bri a Glanyfferi. Mae'r gwelyau wedi'u cau am gyfnod dros dro er mwyn gwarchod cocos anaeddfed neu rhy fach ac er mwyn eu helpu i ddatblygu.

3. Trwyddedau. Heb ragfarnu ystyr cyffredinol Nodyn 1, rhaid bod gan unrhyw un sydd am bysgota am gocos, eu cymryd neu eu symud ymaith o Wely Cocos Llansteffan, Llanismel/Than-y-lan, Gwendraeth, Llan-y-bri a Glanyfferi drwydded a roddwyd yn unol ag Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024. a rhaid gwneud hynny yn unol â'r amodau yn y drwydded honno.

4. Oriau golau dydd. Eto, heb ragfarnu ystyr cyffredinol Nodyn 1, na chaiff unrhyw un bysgota am gocos na'u cymryd yn yr ardal hon rhwng hanner awr ar ôl machlud a hanner awr cyn y wawr ar y diwrnod canlynol.

5. Llanw Sengl. Dim ond y Dŵr Isel agosaf at ganol dydd (Amser Lleol) y dylid ei bysgota. Os oes amheuaeth ynghylch pa Ddŵr Isel sy'n briodol yna dylid dewis Dŵr Isel cyntaf y dydd i leihau'r risg i gasglwyr sy'n gysylltiedig â llongau sy'n dychwelyd o'r gwelyau cocos o dan oriau'r tywyllwch.

6. Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir. Ar hyn o bryd, cyfanswm y ddalfa a ganiateir yng Ngwelyau Cocos; ar gyfer Llansteffan 176 o dunelli, ar gyfer Llanismel a Than-y-lan y nifer yw 178 o dunelli ar gyfer Gwendraeth y nifer yw 129 o dunelli; ar gyfer Llan-y-bri y nifer yw 203 o dunelli ar gyfer Glanyfferi y nifer yw 148 o dunelli. Pan fydd y ddalfa hon wedi ei gyrraedd, caiff y bysgodfa ei chau. Rhaid gwneud hyn i gydymffurfio ag ymrwymiadau amgylcheddol Gweinidog Cymru.


7. Hela cocos yn y penwythnos yn unig. Gan fod maes tanio MOD Pentywyn a Pen-bre mor agos, bydd gwelyau cocos Gwendraeth a Llan-y-bri ar gael (yn unol â'r Hysbysiad hwn, pan fydd gweithgarwch tanio byw yn llai tebygol) yn ystod oes yr hysbysiad hwn.

8. Ni chaniateir defnyddio unrhyw fath o gerbyd. Heb ragfarnu ystyr cyffredinol Nodyn 1, mae Defnyddio Cerbydau yn Aber y Tair Afon a wnaed gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru yn darparu na chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd mecanyddol sefyll ar unrhyw ran o Aber y Tair Afon (at ein diben), na theithio drosti, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gweinidogion Cymru.

9. Cludo cocos ymaith mewn cwch Ystyrir bod unrhyw ddŵr yn Aber y Tair Afon yn "fôr". Bydd unrhyw gwch a ddefnyddir mewn unrhyw ffordd mewn cysylltiad â chludo pobl, offer neu gargo i gocosa yn yr ardal, yn gweithredu'n fasnachol. Rhaid i unrhyw gwch sy'n gweithredu'n fasnachol gydymffurfio â Deddfwriaeth Cychod Masnachol y Deyrnas Unedig. Os hoffech fwy o wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon, ewch i wefan yr MCA,

   https://www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency

Map yn dangos Afon Tywi ,Afon Taf ac Afon Gwendraeth, mae'n dangos y ffiniau yn darluio'r gwelyau cocos. Glanyfferi, Gwendraeth, Llan-y-bri, Llansteffan ac Llanismel /Tan y Lan.




**RHAGOR O WYBODAETH**
Am rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Is-adran Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court
Parc Busnes Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS

Ffôn: 0300 025 3500 E-bost : pysgodfeydd@llyw.cymru